

Bod yn
Ddwyieithog
ym Mwrdeistref
Sirol Merthyr Tudful



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



Ydych chi'n ystyried anfon eich plentyn
i ysgol/ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg?

Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

Y gallu i fyw eich bywyd gan ddefnyddio dwy iaith yn rhugl; mae siarad dwy iaith neu fwy yn gallu cynnig mwy o gyfleoedd i chi trwy gydol eich bywyd.

Fel rhiant sy'n dewis Addysg Gymraeg i'ch plentyn, rydych chi'n rhoi anrheg iddo a fydd yn cyfoethogi i holl fywyd.

Nod y llyfryn hwn yw ateb cwestiynau, mynd i'r afael â phryderon a rhan nu'r manteision sy'n gysylltiedig â bod yn ddwyieithog.

Mae'r llyfryn hefyd yn dangos llwybrau clir ar gyfer eich plentyn drwy'r blynyddoedd ysgol - o'r dosbarth meithrin, i'r ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd a thu hwnt.

**OEDDECH
CHI'N
GWYBOD?**

Mae tua 81% o ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg ym Merthyr Tudful yn dod o gartrefi di-Gymraeg.



Beth yw'r manteision o fod yn ddwyieithog?

Gallwch chi fyw eich bywyd mewn dwy iaith (neu fwy).

Trwy fyw yng Nghymru mae eich bywyd yn gyfoethocach pan rydych chi'n gallu siarad Cymraeg. Ac os ydych chi eisiau teithio neu eisoes yn siarad ieithoedd eraill gartref, mae dysgu un arall yn haws!

Mae cyfleoedd gwyh o ran gwaith a gyrfa.

Mae siarad dwy iaith yn cynnig mwy o gyfleoedd o ran cyflogaeth ac yn rhoi sgil ychwanegol ar eich CV gan eich galluogi i siarad â phobl yn eu dewis iaith.

Mae'r meysydd gyrfa canlynol yn awyddus iawn i gyflogi siaradwyr Cymraeg - y cyfryngau, technoleg gwybodaeth, iechyd, y sector cyhoeddus, chwaraeon a hamdden, manwerthu, addysg, a'r sector gofal plant. Mae gan siaradwyr Cymraeg fantais amlwg wrth chwilio am waith (mae siaradwyr Cymraeg yn aml yn cael eu talu 11 % yn fwy!) *(Gyrfaedd Cymru)*

Bod yn rhan o'n diwylliant a'n treftadaeth.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhoi ymdeimlad cryf o hunaniaeth a theimlad o berthyn i ni.

Dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yw'r norm ledled y byd, ac mae tua 70 % o'r boblogaeth yn siarad mwy nag un iaith yn eu bywydau bob dydd.



OEDDECH
CHI'N
SIARAD?

Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos bod plant dwyieithog yn tueddu i gyflawni'n uwch yn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Maen nhw hefyd yn tueddu i weithio'n well dan bwysau.

Ymchwil rhyngwladol gan yr Athro Colin Baker, Dr Ellen Bialystok, Yr Athro E Bylund, yr Athro P Athanasopoulos a Dr G Poarch

Ei gael yn iawn o'r dechrau

Mae ymchwil yn dweud wrthym y gall babanod glywed lleisiau a cherddoriaeth yn ystod beichiogrwydd.

Felly os ydych chi'n awyddus i fagu'ch plentyn yn ddwyieithog, nawr yw'r amser i ddechrau siarad a chanu yn Gymraeg â'ch babi.

Newid hwn i 'Mae Cymraeg i blant yn darparu cyngor a gwybodaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd -<https://meithrin.cymru/irieni/>

Mae siarad rhai geiriau â'ch babi o'i enedigaeth yn bwysig, hyd yn oed os ydych ond yn gwybod ychydig o eiriau Cymraeg, gan ei fod yn rhoi'r dechrau gorau i'ch babi mewn bywyd dwyieithog.

Mae canu yn ffordd dda o gyfathrebu â'ch babi - fe allech chi ganu rhigymau Cymraeg neu wrando ar ganeuon Cymraeg.

O chwe mis ymlaen, bydd sgiliau iaith eich babi yn datblygu'n gyflym. Dyma'r amser i ddechrau darllen straeon syml gyda'ch babi a throi tudalennau'r llyfrau lluniau gyda'ch gilydd. Bydd eich babi yn dechrau dynwared synau a chysylltu geiriau â gwrthrychau, felly bydd dysgu geiriau Cymraeg syml gyda'ch gilydd bob dydd yn effeithiol.

*“Ceisiais siarad
â'm “bwmp” bob
dydd yn Gymraeg,
a dysgais i ychydig
o rigymau Cym-
raeg hyd yn oed.”*

Elena, mam Lowri



Chwarae a Dysgu yn y Gymraeg o Enedigaeth (Plant 0-4 oed)

Meithrinfa Ddydd/Gwarchodwr Plant

Tua 8am-6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gofynnwch yn eich Meithrinfeydd Dydd/ Gwarchodwr Plant lleol sut maen nhw'n darparu ar gyfer datblygu'r Gymraeg trwy weithgareddau bob dydd.

Cymraeg i Blant

Mae Cymraeg i blant yn rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni ar gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar drwy ystod o grwpiau cefnogi am ddim fel tyli-no babi, ioga babi a sesiynau Arwyddo, Stori a Chân. I gofrestru ar grŵp ewch draw i Facebook Cymraeg i blant Merthyr

Datblygiad Iaith Gynnar

Mae sesiynau grŵp yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog mewn lleoliadau cy-munedol i hyrwyddo iaith gynnar eich plentyn trwy ganeuon, straeon, odlau a gweithgareddau difyr. (Yn addas ar gyfer rhieni a babanod o'u genedigaeth ymlaen).

Ti a Fi - Sesiynau Grŵp i Rieni a Phlant Bach sy'n cael eu chefnogi gan y Mudiad Meithrin

Tua 1-2 awr. Cyfle i rieni â phlant hyd at oedran ysgol gymdeithasu, canu a chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cylchoedd Meithrin 2-4 oed

Gall plant gael mynediad i tua 2-2½ awr y sesiwn. Mae rhai grwpiau'n cynnig lleoedd Codi'n 3, addysg gofrestredig, lleoedd Dechrau'n Deg, a darpariaeth ar-ôl-ysgol. Weithiau, mae gwasanaeth cofleidiol ar gael lle gall plant gael mynediad i glwb brecwast neu glwb ar-ôl-ysgol yn y feithrinfa, cyn neu ar ôl y sesiwn feithrin, ac yna gellir eu cludo i'r ysgol cyfrwng Cymraeg leol am eu haddysg.



Cylchoedd Meithrin ym Merthyr Tydfil

Cylch Meithrin Aber-fan

Trinity Child and Family Centre
Aber-fan
CF48 4NT
Ffôn: 01443 693777
E-bost: info@trinitychildcare.wales

Cylch Meithrin Pentre-bach

Canolfan Integredig Cwm Golau
Heol Dyffryn, Pentre-bach
CF48 4BJ
Ffôn: 01685 727374/07984186329
E-bost: cmpentrebach@hotmail.co.uk

Cylch Meithrin Cefn Coed

Yn ailagor yn fuan. Gweler manylion
pellach isod:
<https://www.meithrin.cymru/find-a-cylch/>
<https://www.merthyrfis.org/>

Cylch Meithrin Gurnos

Gweler manylion pellach isod:
<https://www.meithrin.cymru/find-a-cylch/>
<https://www.merthyrfis.org/>

Cylch Meithrin Twyncarmel

Capel Twyncarmel,
Clwydyfagwr, Ffordd Abertawe,
Merthyr Tudful,
CF48 1HN
Ffôn: 01685 350167
E-bost: cylchmeithrintwyncarmel@live.co.uk

Cylch Meithrin Treharris

Boys and Girls Club
Forest Road, Treharris
CF46 5RG
Ffôn: 07444051267
E-bost: cylchmeithrintreharris@outlook.com

Am ragor o wybodaeth ynghylch Cylchoedd Meithrin a/neu Grwpiau Ti a Fi yn yr
ardal, ewch i:
<https://www.meithrin.cymru/find-a-cylch/>
<https://www.merthyrfis.org/>

Adloniant Cymraeg i Blant



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFIL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

#Welsh@home

Cyw ar S4C

- gwefar yr amserlen ar wefan Cyw:
Cyw <https://cyw.cymru/>
6yb - 12yp Llun i Gwener
6yb - 8yb Dydd Sadwrn
6yb - 9yb Dydd Sul

Engbreiffiau a roglenni ar Cyw:



Canu a Dawnsio:

- Do Re Mi Dona
- Dathlu 'da Dona
- Jambori

Ymarfer Corff:

- Heini

Addysgol:

- a b c
- Abadas
- Antur Natur Cyw
- Blociau Rhif
- Dywlo'r Enfys
- Dysgu gyda Cyw
- Jen a Jim
- Jen a Jim a'r Cywiadur
- Sbarc



Awr fawr ar S4C

4yp - 5yp Llun i Gwener

Stwnsh on S4C

5yp - 6yp Llun i Gwener

Stwnsh Sadwrn on S4C

5yp - 6yp Llun i Gwener



Gwefannau:

Miri Meithrin: <https://www.facebook.com/groups/mirimeithrin>
BBC Bitesize: <https://www.bbc.co.uk/bitesize/subjects/zdm3nrd>

Twinkl Cymru: <https://www.twinkl.co.uk/>
Booktrust: <https://www.booktrust.org.uk/poridrwystori>

APIAU:



Cytri gyda Cyw



LearnCymraeg



Llyfrau Hwyl Magi Ann



Byd Cyw



Llyfrau Bach Magi Ann



Cyw Tiwb



Dewin a Dodi



Hoff Ganeuon Selog



Bys a Bawd



Llyfrau Magi Ann 2



Amser Stori Cyw



Betsan a Roco
yn y Pentref



Llyfrau Cymraeg/
Welsh Books



Hoff Lyfrau Selog

Cwestiynau cyffredin y rhieni



Felly, beth mae addysg Gymraeg yn ei helpu?

Mae gan addysg Gymraeg nod syml iawn - galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu holl bynciau eraill y cwricwlwm. Mae plant ifanc yn dysgu ieithoedd yn rhyfeddol o hawdd - trwy wneud y mwyaf o'r potensial hwn mae addysg Gymraeg wedi dod yn boblogaidd iawn.



Dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg gartref - a fyddai hynny'n gwneud fy mhlentyn yn wahanol i rai eraill?

Na, mewn gwirionedd, nid yw'r mwyafrif helaeth - dros 81 % - o blant mewn addysg Gymraeg ym Merthyr Tudful yn siarad Cymraeg gartref. Felly, mae dod o gefndir di-Gymraeg yn hollol iawn ac mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio gyda hynny mewn cof. Nid yw ysgolion Cymraeg yn disgwyl i blant siarad Cymraeg pan fyddant yn dechrau, ond byddant yn helpu'r plant hynny i ddod yn rhugl yn y Gymraeg cyn diwedd eu blwyddyn gyntaf.



A oes gan addysg cyfrwng Cymraeg safonau is ar gyfer Saesneg?

Na, mae disgwyl i blant sy'n gadael ysgolion cynradd Cymraeg gyrraedd yr un safon mewn Saesneg â'r plant mewn ysgolion cynradd Saesneg. Mewn ysgolion uwchradd, mae plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn sefyll yr un arholiadau TGAU a Safon Uwch â'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.



“

Sut alla i helpu fy mhlentyn gyda gwaith cartref os nad ydw i'n siarad Cymraeg?


Gan nad yw'r mwyafrif o blant yn siarad Cymraeg gartref, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg â phrofiad helaeth o gefnogi disgyblion a rhieni.

Ar gyfer disgyblion iau, mae cyfarwyddiadau gwaith cartref yn cael eu rhoi'n ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn nes ymlaen, bydd plant yn gallu egluro'u gwaith i'w rhieni eu hunain. Mae ymchwil yn awgrymu y gall delio â'u gwaith mewn dwy iaith fod o gymorth i blant ddeall y pwnc y maen nhw'n ei astudio. ”

“

Beth os oes gan fy mhlentyn anghenion dysgu ychwanegol?

Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful yn darparu cefnogaeth effeithiol pan fydd plant wedi'u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol ”



Sut mae'r Gymraeg yn cael ei Dysgu mewn Cylchoedd Meithrin ac Ysgolion Cyfrwng Cymraeg?

Pan fydd plant yn dechrau dysgu Cymraeg, byddant yn cael eu trochi yn yr iaith o'r dechrau. Mae hyn yn ddull o ddysgu ieithoedd a gydnabyddir yn rhyngwladol a bellach, fe'i defnyddir yng Nghanaada a Gwlad y Basg.

Siaredir Cymraeg trwy gydol y Cyfnod Sylfaen (o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2). Ar ôl hyn, bydd plant yn cael gwersi yn Saesneg ac yn defnyddio Saesneg yn rhai o'u gwersi ar draws y cwricwlwm.

Symud i Fyny

Gall unrhyw blentyn sy'n gwbl ddwyieithog yn yr ysgol gynradd drosglwyddo'n ddi-dor i addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. Yn yr un ffordd yn union ag ysgolion cynradd, dysgir Cymraeg a Saesneg fel pynciau unigol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Addysgir pynciau eraill yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dull hwn yn cynnal dwyieithrwydd y person ifanc ac yn ei ddatblygu trwy gydol ei addysg. Byddai disgwyl i blant a dderbyniodd addysg Gymraeg yn y cynradd barhau â'r rhaglen honno yn yr ysgol uwchradd fel y gallant ddatblygu'u sgiliau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd nes iddynt adael yr ysgol uwchradd.

Hwyrddyfodiaid

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn croesawu ymholiadau gan hwyrddyfodiaid i Addysg Cyfrwng Cymraeg. Weithiau, rhoddir cymorth iaith ychwanegol i'r disgyblion hyn er mwyn eu trochi'n ddyfnach mewn addysg Gymraeg ac mae hyn wedi bod yn broses lwyddiannus. Cysylltwch ag Ysgol Cyfrwng Cymraeg eich dalgylch am fwy o wybodaeth.

"Rheswm enfawr dros anfon fy mab i ysgol Gymraeg yw fy mod yn gwybod y bydd hynny'n ehangu ei gyfleoedd. Trwy siarad Cymraeg, rwy'n teimlo y bydd gan fy mab fantais bob amser dros y rhai sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg. Mae yna ymdeimlad gwych o gymuned ymhlith siaradwyr Cymraeg."

Bethan - rhiant yn Ysgol Rhyd y Grug ac athrawes yn Ysgol Rhydywaun

"Roeddwn i eisiau i fy mhlant gael Cymraeg fel iaith gyntaf gan fy mod i'n teimlo y bydd hynny'n darparu mwy o gyfleoedd gwaith pan fyddan nhw'n hŷn. Mae'n well gen i'r ethos o fewn ysgolion Cymraeg hefyd."

Sharon - rhiant yn Ysgol Rhyd y Grug ac Ysgol Rhydywaun



Addysg Gymraeg ar gyfer Plant 4-18

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae dwy ysgol gynradd Gymraeg ac mae'r ddwy yn cynnwys darpariaeth feithrin. Mae'r ddwy ysgol gynradd Gymraeg yn bwydo'r ysgol uwchradd, sef Ysgol Gyfun Rhydywaun ym Mhenywaun, Rhondda Cynon Taf. Darperir cludiant i blant i'w mynychu.

Mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu/datblygu lleoedd ar gyfer ysgol cyfrwng Gymraeg yn ardal Gurnos.

Am fap o ddalgylchoedd ysgolion, ewch i:

<https://www.merthyr.gov.uk/do-it-online/find-it/school-catchment-areas-welsh-medium-schools/>

Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-Y-Grug
Aber-fan
Merthyr Tudful
CF48 4NT
01685 728990
office@rhyd-y-grug.merthyr.sch.uk

Ysgol Gynradd Gymraeg
Santes Tudful
Heol Pantyffyn
Merthyr Tudful
CF47 0HU
01685 351815
office@santestudful.merthyr.sch.uk


Ysgol Gyfun Rhydywaun
Rhodfa Lawrence
Penywaun
Rhondda Cynon Taf
CF44 9ES
01685 813500
ysgol@rhydywaun.org

Swyddog Hyrwyddo a Safonau'r
Gymraeg
Coleg Merthyr
Ynysfach
Merthyr Tudful
CF48 1AR
01685 726000
l.harrington@merthyr.ac.uk

Cludiant

Am ragor o wybodaeth ynghylch cludiant ysgol:

<https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/learner-travel-information/>



Y Camau Nesaf ... Coleg, Prifysgol?

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Sefydliad Addysgol Uwch a Phellach sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob prifysgol ledled Cymru.

Gan fod disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwbl ddwyieithog, gallant ddewis dilyn cyrsiau coleg a phrifysgol yn y naill iaith (neu'r ddwy). Mae Prifysgolion Cymru yn cynnig mwy a mwy o raddau prifysgol (yn rhannol neu'n llwyr) trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gall pobl ifanc dderbyn bwrsariaeth ar lefel addysg uwch i astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer cynyddol o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael mewn Addysg Bellach. Felly, gall myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ddilyn naill ai cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu gyrsiau cyfrwng Saesneg mewn coleg neu brifysgol, yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi datblygu Tystysgrif Sgiliau Iaith er mwyn galluogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru i ennill tystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o gyflogwyr wedi datgan eu cefnogaeth i'r Dystysgrif, gan gynnwys ITV Cymru a Llywodraeth Cymru.

"Fel myfyriwr, dewisais i ddilyn rhan o fy nghwrs gradd prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd, fel lleoliad gwaith yn fy Awdurdod Lleol a chwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg. Rwy'i hefyd yn llysgennad myfyrwyr ac yn defnyddio hyn fel cyfle i hyrwyddo'r manteision o astudio gradd yn ddwyieithog."

Hannah - Myfyrwraig Israddedig ym Mhrifysgol Abertawe

"Rwy'i mor falch fod fy rhieni wedi dewis fy anfon i ysgol Gymraeg. Mae bod yn ddwyieithog wedi rhoi cynifer o gyfleoedd imi pan oeddwn i'n tyfu lan, a thrwy gydol fy mywyd. Erbyn hyn, rwy'n gweithio mewn ysgol gynradd Gymraeg ac yn defnyddio fy Nghymraeg bob dydd."

Katie - cyn-ddisgybl Ysgol Rhydywaun



Cymraeg i Oedolion

Mae rhai rhieni, ar ôl dewis ysgol Gymraeg i'w plentyn, yn penderfynu dysgu Cymraeg hefyd. Mae'n gyfle gwych i ddysgu gyda'ch gilydd, i ymarfer eich sgiliau iaith gyda'ch gilydd a threulio amser gwerth chweil gyda'ch gilydd.

Mae Canolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg yn siop-un-stop os ydych chi eisiau dysgu neu wella'ch Cymraeg. Mae'n darparu cyrsiau ar bob lefel ar draws yr ardal, gyda dewis eang o ddyddiau ac amseroedd.


Bydd cyfleoedd i gwrdd â dysgwyr eraill mewn ysgolion dydd, cyrsiau bloc, boreau coffi, clybiau llyfrau, clybiau cinio a llawer mwy.

Mae Prifysgol De Cymru yn cyflwyno cyrsiau ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr ar ran y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg.

I gael mwy o wybodaeth am gyrsiau yn yr ardal, mae croeso ichi gysylltu â ni drwy ffonio 01443 483 600 neu e-bostio: learnwelsh@southwales.ac.uk

“Roeddwn i wastad wedi eisiau dysgu Cymraeg, ond roeddwn i'n meddwl fy mod i wedi'i adael e'n rhy hwyr. Rwy'i mor falch fy mod i wedi dechrau mynychu dosbarth Cymraeg wythnosol i ddechreuwr mewn oed ym Merthyr Tudful. Mae fy sgiliau Cymraeg yn datblygu, ynghyd â fy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda dysgwyr eraill a siaradwyr Cymraeg. Rwy'n falch fy mod i'n dysgu iaith fy mamwlad! Rwy'n gobeithio parhau i astudio a datblygu fy sgiliau ymhellach”

Angie Morgans - Dysgwraig Cymraeg



Ein Cymuned Gymraeg ym Merthyr Tudful

Menter Iaith Merthyr Tudful

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd celfyddydol gwych y gallant gymryd rhan ynddynt ynghyd â phrofiadau diwylliannol eraill. Prif nod y sefydliad yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rydyn ni'n darparu ac yn cynnal ystod eang o gyrsiau, gweithdai, perfformiadau, clybiau a chyfleoedd hamdden i'w mwynhau gan blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd.

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful wedi datblygu a'i lleoli yng Nghanolfan a Theatr Soar ym Mhontmorlais, Merthyr Tudful, sef y ganolfan iaith a diwylliant Cymraeg yng nghanol Tref Merthyr. Tra bod Canolfan Soar yn gartref i bob un o'r sefydliadau Cymraeg sy'n gwasanaethu Bwrdeistref Merthyr Tudful, mae Theatr Soar wedi galluogi'r Fenter Iaith i estyn allan i'r gymuned ehangach.

Dyma rai o'r sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan a Theatr Soar:

Menter Iaith Merthyr Tudful - cyfranogiad cymunedol

Lingo Soar Cyf - gwasanaeth cyfieithu Cymraeg

Dysgu Cymraeg Morgannwg - Dysgu Cymraeg

Urdd Gobaith Cymru - Gwaith ieuenctid

Mudiad Meithrin - Cylch Meithrin Soar

Helo Blod - Defnydd iaith mewn busnes

Mae **Canolfan Soar** hefyd yn gartref i:

Caffi Soar sydd ar agor 6 diwrnod yr wythnos, ar gyfer coffi a byrbrydau. Mae'r caffi hefyd yn darparu ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd a phartïon a gynhelir yn y ganolfan.

Siop Llyfrau'r Enfys - Siop llyfrau Cymraeg sy'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r siop yn gwerthu cardiau, arneigion a detholiad o grefftâu lleol.

Mae Caffi Soar a Siop Llyfrau'r Enfys yn cynnal eu digwyddiadau diwylliannol, Cymraeg a dwyieithog eu hunain.

Mae **Theatr Soar** yn stiwdio theatr a dawnys sy'n cynnwys 200 sedd, a bob tymor mae'n darparu rhaglen o ddigwyddiadau a pherfformiadau Cymraeg, Saesneg a Dwyieithog. Mae'r Theatr hefyd ar gael i'w hurio gan y gymuned a'r cyhoedd.



Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gwirfodoli a phrofiad gwaith i oedolion a phobl ifanc. Mae Canolfan a Theatr Soar yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned trwy gynnig amgylchedd diogel a chyffyrddus lle gall pobl a theuluoedd ddod o hyd i gyfeillion newydd ac ymuno â rhwydweithiau newydd sy'n ehangu'u gorwelion. Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel modd sy'n rhoi'r gallu inni gyfoethogi ein cymuned.

Manylion cyswllt:

Menter Iaith Merthyr Tudful, Canolfan a Theatr Soar, Pontmorlais, Merthyr Tudful CF47 8UB

☎01685 722176

<http://www.theatrsoar.co.uk/>

f : Canolfan a Theatr Soar

: @TheatrSoar

Urdd Gobaith Cymru

Mudiad ieuenctid yw'r Urdd sy'n cynnig cyfleoedd a gweithgareddau i holl ieuenctid Cymru (hyd at 25 oed). Mae'n fudiad bywiog sy'n rhan o fywyd plant ysgolion Cymraeg, trwy chwaraeon, cerddoriaeth, yr Eisteddfod, canolfannau preswyl a grwpiau ieuenctid. <https://www.urdd.cymru/cy/>

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru ac mae'n sicrhau cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. <http://www.rhag.cymru/>


Rhieni dros Addysg Gymraeg Cangen Merthyr Tudful: rhagmerthyr@gmail.com

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful

Am wybodaeth ynghylch gofal plant, addysg, gweithgareddau a gwasanaethau i deuluoedd, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful. Llinell gymorth: 01685 727400 <https://www.merthyrfis.org/welsh-medium-education-and-resources-for-parents/welsh-medium-education-resources/>

Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful

Gofynnwch i'ch llyfrgell leol am lyfrau Cymraeg neu ddwyieithog - mae yna lawer gyda geiriau Cymraeg a Saesneg syml ochr yn ochr i'w gilydd fel y gallwch chi ddechrau dysgu'r iaith gyda'ch plentyn. Rhif ffôn: 01685 725258 <https://www.merthyrlibraries.co.uk/>



Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymraeg

Mudiad Meithrin

Mae'n cefnogi plant ifanc yng Nghymru i gael mynediad at wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

☎01970 639639 <https://www.meithrin.cymru/>

: @mudiadMeithrin

: Mudiad Meithrin

f : Mudiad Meithrin De Ddwyrain
Rydyn ni hefyd ar Instagram.

Cymraeg i Blant

Cynllun sydd yn cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynnar gyda'r plentyn

Meithrin.cymru

: f Cymraeg i blant Merthyr

Gwefan Cymraeg Llywodraeth Cymru

Mae'n cynnig gwybodaeth am ystod o faterion yn ymwneud a'r Gymraeg ac mae'n borth i wefannau eraill sy'n cynnig modd i ganfod digwyddiadau, ap yr wythnos, cyrsiau Cymraeg i Oedolion a llawer mwy. <https://learnwelsh.cymru/>

Comisiynydd y Gymraeg

Mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn cynnwys y canlynol:

- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafrinol na'r Saesneg trwy osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
- ymchwilio i ymyrraeth â rhyddid yr unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

☎0345 6033 221

E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru





Dyfyniadau'r Rhieni:

Dyw fy ngŵr na minnau'n siarad Cymraeg. Roedden ni'n nerfus ar y dechrau ac yn ystod y flwyddyn gyntaf, gwnaethon ni feddwl a oedden ni'n gwneud anghymwynas â'n plentyn trwy fethu siarad yr iaith yr oedd yn ei dysgu. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, cawsom sioc o weld pa mor gyflym y llwyddodd ein plentyn i ddysgu'r iaith a chyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg ac yn Gymraeg, gan lithro'n hawdd rhwng y ddwy iaith.

Claire - Rhiant yn Ysgol Santes Tudful

Y rhesymau y dewisais i addysg cyfrwng Cymraeg i'm plant oedd rhoi ymdeimlad o dreftadaeth a diwylliant iddyn nhw yn ogystal ag awydd i gynyddu'u cyfleoedd yn y dyfodol trwy fod yn ddwyieithog, a hefyd fy nyhead innau i fod yn siaradwr Cymraeg.

Rebecca - Rhiant yn Ysgol Rhydywaun



Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan oeddwn i'n 14 oed a meddyliais i nad oeddwn i BYTH yn mynd i lwyddo. Ond wrth lwc, roedd gen i athro gwych. Roeddwn i mor ffodus, oherwydd fe wnes i fwynhau actio a dysgu Cymraeg. Fe gefais i swydd ym myd teledu ac rwy'i wedi bod yn ffodus iawn i weithio ar Bobl y Cwm , yr opera sebon Gymraeg, ers bron i ugain mlynedd.

Donna Edwards – Actores

